

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15fed Mehefin 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Rhif Ffôn Cyswllt:	32233
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2020/21

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2020/21 ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2020/21 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Mae gofyn i ni fel Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n mesur ein perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau.
- 3.2. Bydd Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.
- 3.3. Dyma fydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol olaf y Cyngor o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol amdano. I'r dyfodol, byddwn yn adrodd yn unol â Chanllawiau Perfformiad a Llywodraethiant newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ymysg pethau eraill, bydd gofyn i ni'n unol â'r canllawiau hyn gynnal hunanasesiad o'n perfformiad gan ddangos sut y byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i wella perfformiad. Bydd hefyd dyletswydd arnom i ymgynghori ar ein perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn gyda rhanddeiliaid perthnasol. Byddwn, dros y misoedd nesaf, yn ystyried y ffordd orau i fynd i'r afael â'r dyletswyddau ychwanegol yma.
- 3.4. Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2020/21 (Atodiad 1) wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y

rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul adran.

- 3.5. Yn ychwanegol, ar ddechrau'r adroddiad eleni mae pennod wedi'i gynnwys gyda'r bwriad o grynhoi a chyfleu prif raglenni gwaith ychwanegol y cyngor yn ystod 2020/21 o ganlyniad i'r angen i ymateb i argyfwng Covid-19. Mae'r bennod hefyd yn gyfle i sôn am yr addasiadau cyffredinol sydd wedi wynebu'r holl adrannau e.e. yr angen i sefydlu trefniadau gweithio'n rhithiol.
- 3.6. Ymhellach, mae penodau'r adrannau yn ychwanegu at hynny rywfaint drwy amlinellu'r effaith mae'r argyfwng wedi'i gael ar eu gwaith a'u perfformiad nhw'n benodol.
- 3.7. Gan nad yw'r Aelodau Cabinet wedi cyflwyno adroddiadau perfformiad unigol yn ystod y flwyddyn yn unol â'r drefn arferol, mae'r adroddiad wedi'i baratoi yn seiliedig ar adroddiadau diwedd blwyddyn yr adrannau o'u perfformiad. Mae'r adroddiadau hyn wedi eu cyflwyno am drafodaeth mewn cyfarfodydd herio perfformiad gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol a chynrychiolaeth o bwyllgorau craffu.
- 3.8. Mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori yn hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.
- 3.9. Nodir fod angen cadarnhau cynnwys Rhagair yr Arweinydd a bydd hyn yn digwydd cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r adroddiad i'r Cyngor Llawn. Wrth gwrs, mae angen cydnabod holl ymdrechion staff y cyngor wrth weithio'n ddygn i sicrhau parhad gwasanaethau yn ystod blwyddyn mor heriol, a bydd y rhagair yn gyfle i wneud hynny.
- 3.10. Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 8fed o Orffennaf 2021. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi.
- 4.2. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copiâu drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr

Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag mae'n briodol hefyd nodi fod y gyfundrefn yma yn newid ar gyfer 2021/22 gyda trefniadau newydd ar gyfer adrodd ac ymgynghori ar berfformiad yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr Adroddiad Perfformiad a'i atodiadau, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae'r ffigyrau ariannol yn gyson gyda chyfrifon 2020/21). Er gwaethaf yr argyfwng a'r cyfyngiadau, mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer yn 2020/21, gan gynnwys unioni sefyllfa nifer o gynlluniau arbedion hanesyddol, tra'n gorffen y flwyddyn mewn sefyllfa ariannol gadarn. Mae hynny ar ôl i'r Cyngor lwyddo i hawlio grantiau gan y Llywodraeth i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol (hawliwyd cyfanswm dros £27m ar gyfer y Cyngor, ysgolion Gwynedd, a Byw'n Iach) a chynorthwyo economi'r sir (dosbarthwyd dros £106m o grantiau cymorth i fusnesau lleol).